# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 9 Chwefror 2000

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi dangos buddiant.

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol

### Strategaeth Wastraff Cymru

**C6 Jocelyn Davies:** A all Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ddatgan sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu ymdrin â gwastraff gwenwynig a pheryglus yn strategaeth wastraff Cymru? (OAQ3460)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law):** Mae Cyfarwyddeb Gwastraff Peryglus Ewrop yn galw ar y DU i lunio cynllun rheoli gwastraff peryglus, naill ai ar wahân, neu fel rhan o gynllun cyffredinol i reoli gwastraff. Cyflawnir y rhwymedigaeth hon yng Nghymru yn 'A Way with Waste', a gyhoeddir yn y gwanwyn. Drwy ddatblygu strategaeth wastraff fanylach ar gyfer Cymru, ystyriwn y materion penodol sydd yn dod i'r golwg oherwydd gwastraff peryglus yn llawn.

### Gorsafoedd Monitro Llygredd Aer

**C7 John Griffiths:** A wnaiff Peter Law gynnal arolwg o leoliadau gorsafoedd monitro llygredd aer yng Nghymru? (OAQ3450)

**Peter Law:** Mae lleoliadau monitro llygredd aer yng Nghymru yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith cenedlaethol ledled y Deyrnas Unedig. Y Cynulliad ac Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sydd yn cytuno ar leoliadau'r gorsafoedd monitro yng Nghymru. Caiff y trefniadau presennol eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Comisiwn Ewropeaidd 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchol a'r epil-ddeddfwriaeth olynol. Fel cam cyntaf, mae'n rhaid i'r aelod wladwriaethau nodi unrhyw ofynion monitro ychwanegol sydd yn angenrheidiol i gyflawni eu rhwymedigaethau dan y cyfarwyddebau.

### Graeanu Ffyrdd

**C8 Peter Rogers:** Pa gamau y gellid eu cymryd yn erbyn awdurdodau lleol sydd yn peidio â graeanu ffyrdd? (OAQ3475)

**Peter Law:** Cyfrifoldeb pob awdurdod priffyrdd unigol yw pennu ei bolisi cynnal a chadw ar gyfer y gaeaf a threfnu rhoi hynny ar waith. Eu nod cyffredinol yw sicrhau y cedwir nifer y damweiniau ac achosion o oedi oherwydd tywydd gwael mor isel â phosibl, cyn belled ag y bo'n ymarferol. Nid oes gan y Cynulliad bŵer statudol penodol i'w alluogi i weithredu, ond gallai awdurdod lleol fod yn atebol i her mewn achos llys.

### Lwfansau Cynghorwyr

**C9 David Melding:** Pa gamau y mae Peter Law yn eu cymryd i gyfyngu ar lwfansau cynghorwyr? (OAQ3473)

**Peter Law:** Yn ôl y rheoliadau presennol, y cynghorau unigol sydd i bennu lwfansau eu haelodau etholedig eu hunain. Nid oes gennyf unrhyw gynigion i newid y sefyllfa. Gobeithiaf y bydd cynghorau'n ystyried argymhellion adroddiad y gweithgor lwfansau Aelodau, 'Rewarding Community Service', cyn pennu eu lwfansau. Mae hwn yn gosod fframwaith clir i

gynghorau sefydlu eu lwfansau arno, ac mae'n argymell lefelau lwfansau sylfaenol a lwfansau cyfrifoldeb arbennig y gallai'r cynghorau eu dilyn os y mynnant.

### Safonau Llygredd

**C10 Brian Hancock:** A fydd y Cynulliad yn gosod safonau uwch ar gyfer llygredd na'r rhai a gynigir ar gyfer Lloegr? (OAQ3456) [R]

**Peter Law:** Mae gan y Cynulliad ystod eang o gyfrifoldebau amgylcheddol. Wrth osod safonau i leihau llygredd, bydd yn rhaid ystyried costau a buddion y cynigion unigol i Gymru ynghyd â'r gofynion Ewropeaidd perthnasol.

### Cyllid Grantiau Trafnidiaeth

**C11 Phil Williams:** A all Peter Law ddatgan yn bendant na fydd dim cyllid grantiau trafnidiaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol hon na'r flwyddyn nesaf yn cael ei ddefnyddio i gyfateb cyllid Ewropeaidd? (OAQ3463)

**Peter Law:** Yn ôl y trefniadau presennol, pan fydd awdurdodau lleol yn derbyn cefnogaeth grant trafnidiaeth ar gyfer prosiectau ac mae'n agored iddynt ddefnyddio'r arian hwnnw i gael cyllid ychwanegol o Ewrop neu o ffynonellau eraill.

### Un Fasnachfraint Reilffordd (Cymru a'r Gororau)

**C12 Carwyn Jones:** Pa drafodaethau y mae Peter Law wedi'u cael ynghylch y bwriad i sefydlu un fasnachfraint reilffordd ar gyfer Cymru a'r Gororau? (OAQ3476)

**Peter Law:** Trafodais hyn gydag aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ar 2 Chwefror pan oedd cynrychiolydd o'r awdurdod rheilffyrdd strategol cysgodol yn bresennol. Yr wyf hefyd wedi trafod hyn gyda rhai o'r cwmnïau trenau.

Croesawir cynigion gan gwmnïau sydd yn ffurfio masnachfraint rheilffyrdd Cymru-gyfan gan y byddai hyn yn arwain at ddull mwy cydlynol o reoli, ynghyd â gwell hunaniaeth genedlaethol, cyn belled ag y byddant yn cyflwyno gwell gwasanaethau. Gan mai prin yw'r gwasanaethau yng Nghymru sydd yn gweithredu ar sail fasnachol hyfyw heb gymhorthdal, bydd yn rhaid i'r cwmnïau ddangos sut y byddent yn cael gafael ar y buddsoddiad angenrheidiol i gefnogi a gwella gwasanaethau. Mae Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol hefyd wedi datgan ei fod yn cefnogi masnachfraint Cymru-gyfan.

### Bidiau Trafnidiaeth

**C13 Jane Davidson:** Pryd y bydd canlyniad y bidiau trafnidiaeth yn hysbys ac a wnaiff Peter Law ddatganiad ar y mater? (OAQ3420)

**Peter Law:** Cyhoeddais fy mhenderfyniad ar y bidiau grant trafnidiaeth yn gynharach heddiw.

### Ceisiadau am Gloddio Glo Brig

**C14 Huw Lewis:** Yn ystod y broses ymgynghori ar y ddogfen 'Canllawiau Cynllunio Mwynau (Cymru)', pa ystyriaeth a roddir i effeithiau ceisiadau niferus am gloddio glo brig mewn un ardal arbennig? (OAQ3449)

**Peter Law:** Cyhoeddwyd drafft o'r ddogfen bolisi 'Canllawiau Cynllunio Mwynau (Cymru)', sydd yn cynnwys polisïau ar gyfer glo ar 25 Tachwedd 1999, fel bod modd ymgynghori arni. Yr oedd yn desun trafodaeth mewn seminar yn Llandrindod ar 20 Ionawr.

Pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 11 Chwefror, caiff yr holl faterion a godwyd gan Aelodau'r Cynulliad, sefydliadau ac unigolion, boed hynny'n ysgrifenedig neu yn y seminar—gan gynnwys pa ganllawiau sydd eu hangen arnom wrth ddelio â sawl cais i gloddio am lo brig—eu hystyried yn ofalus cyn y cyhoeddir canllawiau cynllunio mwynau newydd a fydd yn addas i anghenion Cymru.

Ymhen amser, bydd cyfres o nodiadau cyngor technegol yn cyd-fynd â'r brif ddogfen bolisi. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd yn ymwneud â glo, a chydag agregau.

## Caniatâd Cynllunio

**C15 Jocelyn Davies:** Gan nad oes un corff neilltuol yn edrych ar yr oblygiadau tymor hir o roi caniatâd cynllunio, pa sicrwydd y gall Peter Law ei roi bod adnoddau digonol wedi'u dyrannu i'r adran gynllunio i ymdrin â'r ceisiadau? (OAQ3459)

**Peter Law:** Yn sylfaenol, cyfrifoldeb yr awdurdodau cynllunio lleol yw materion cynllunio. Nodir y polisïau y seilir eu penderfyniadau cynllunio beunyddiol arnynt yn eu cynlluniau datblygu. Yr awdurdodau sydd i sicrhau bod eu penderfyniadau'n cyd-fynd â'r polisïau hynny. Rhaid i bolisïau cynlluniau datblygu, yn eu tro, gyd-fynd â'r polisi cynllunio cenedlaethol fel y'i nodwyd yn 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio'.

Er nad yw'r Cynulliad yn edrych ar oblygiadau pob caniatâd cynllunio, mae'n monitro'r amser y mae'r awdurdodau lleol yn treulio wrth ddelio â'r ceisiadau sydd ger eu bron. Gall y Cynulliad gael gwybod am geisiadau unigol mewn sawl ffordd; o ganlyniad i apeliadau cynllunio, ceisiadau i alw'r ceisiadau 'i mewn' i'r Cynulliad benderfynu arnynt neu am eu bod wedi eu cyfeirio i'r Cynulliad gan yr awdurdodau cynllunio lleol oherwydd eu bod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y cynllun datblygu, neu dan ofynion y gyfarwyddeb siopa. Yr Arolygiaeth Gynllunio sydd yn penderfynu ar y mwyafrif o apeliadau ar ran y Cynulliad, er bod y Cynulliad yn penderfynu ar nifer fach ohonynt. Gyda golwg ar geisiadau eraill, nid ydym yn ymyrryd ag awdurdodaeth yr awdurdodau cynllunio lleol oni bai fod hynny'n angenrheidiol. Er enghraifft, pan fydd cais am ganiatâd cynllunio yn codi materion cynllunio sydd ag arwyddocâd ehangach.

Nid wyf yn disgwyl i'r Cynulliad ymyrryd mewn mwy nag ychydig o achosion bob blwyddyn oherwydd hynny, ac yr wyf yn fodlon bod gan Adran Gynllunio'r Cynulliad ddigon o gyllid ar gyfer y dasg hon.

## Morglawdd Bae Caerdydd

**C16 Jenny Randerson:** Pa drafodaethau y mae Peter Law wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ynghylch effaith amgylcheddol morglawdd Bae Caerdydd gan fod y dŵr a gronnwyd yn awr yn mynd i barhau fel llyn heli hyd y flwyddyn nesaf? (OAQ3428)

**Peter Law:** Yr ydym yn cadw mewn cysylltiad cyson ar y mater hwn, o ystyried fy nghyfrifoldebau amgylcheddol sydd yn cynnwys noddi Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, gyda'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd yn arwain ar faterion eraill. Perchennog a gweithredwr y morglawdd sydd yn gyfrifol am gydymffurfio â gofynion amgylcheddol Deddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993, a rhaid iddo gael cytundeb Asiantaeth yr Amgylchedd pan fo hynny'n briodol. Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd sydd yn gyfrifol am hyn hyd 31 Mawrth 2000 ac yna bydd yn gyfrifoldeb i'r corff olynol. Mae cytundeb yn cael ei lunio rhwng y Gorfforaeth a Chyngor Dinas a Sir Caerdydd i lunio'r trefniadau olynu ac ymgynghorir ag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch telerau'r cytundeb hwn.

## Asesiadau Gwariant Safonol (Awdurdodau Lleol)

**C17 David Davies:** Pa gamau y mae Peter Law yn eu cymryd i atal awdurdodau lleol rhag gwario yn fwy na'u hasesiadau gwariant safonol? (OAQ3477)

**Peter Law:** Yn unol â phwerau newydd y Cynulliad, ni chyhoeddwyd unrhyw egwyddorion capio cyn y setliad. Petai'r sefyllfa annhebyg yn codi lle byddai awdurdodau lleol ledled Cymru yn gosod cyllidebau uwch na'r rheini a ragdybiwyd, a fyddai'n arwain at y Cynulliad yn cael ei gosbi'n ariannol, efallai y byddai angen i'r Cynulliad ystyried defnyddio ei bwerau capio wrth gefn.

## Rheolaeth Dros Forglawdd a Llyn Bae Caerdydd

**C18 Owen John Thomas:** A fydd Peter Law yn gyfrifol o fewn y Cynulliad am forglawdd a llyn Bae Caerdydd pan fydd rheolaeth drostynt yn trosglwyddo o Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd? (OAQ3469)

**Peter Law:** Y Prif Ysgrifennydd sydd yn gyfrifol am ddyrannu portffolios i Ysgrifenyddion y Cynulliad. Yn ôl y trefniadau presennol, yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a fydd yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygiad Bae Caerdydd yn gyffredinol.

## Rheoli Lwfansau Cynghorwyr

**C19 Jonathan Morgan:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ar reoli lwfansau cynghorwyr? (OAQ3481)

**Peter Law:** Yn ôl Rheoliadau Lwfansau Aelodau Awdurodau Lleol 1991, y cynghorau eu hunain sydd i bennu lwfansau eu cynghorwyr. Datganolwyd y pŵer i newid y rheoliadau hyn i'r Cynulliad. Mae'n deg y dylai cynghorau gael ysgwyddo'r cyfrifoldeb am bennu eu lwfansau eu hunain a sicrhau bod eu hetholwyr lleol yn ystyried yr hyn y maent yn ei dalu yn deg.

## Cyngor Cymuned Llanelly

**C20 David Davies:** A oes gan Peter Law unrhyw gynlluniau i fod yn bresennol yn y cyfarfod cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Llanelly ar bwnc cynnydd yn nhreth y cyngor a gynhelir ar 2 Chwefror? (OAQ3478)

**Peter Law:** Nid oedd gennyf gynlluniau o'r fath. Yr oedd gennyf ddiwrnod llawn ymrwymiadau ar y dyddiad hwnnw.

## Cwmni Llanelli Sand Dredging

**C21 Peter Black:** Pryd y bydd Peter Law yn gwneud penderfyniad ar y cais a wnaethpwyd gan Gwmni Llanelli Sand Dredging i godi 300,000 tunnell o dywod o Fanc Helwick ym Môr Hafren? (OAQ3421)

**Peter Law:** Mae gan y cwmni drwydded ddilys i godi tywod o Fanc Helwick, ac mae'n ceisio codi'r cyfyngiad sydd yn ei atal rhag codi dros 150,000 tunnell y flwyddyn. Mae'r gweithgarwch hwn yn ddarostyngedig i drefn fonitro gaeth.

Yr ydym wedi ymgynghori yn eang i sefydlu barn y grwpiau sydd â diddordeb yn y maes, ac yr ydym yn disgwyl am adroddiad technegol gan y cwmni i gefnogi'r newid ymhen mis neu ddau. Pan dderbynnir hwn, byddwn yn arfarnu'r data a'r wybodaeth a fydd ar gael, gan gynnwys canlyniadau ymchwil annibynnol, a byddwn yn pwyso a mesur unrhyw ganlyniadau

amgylcheddol posibl yn erbyn y galw am dywod gan ddiwydiannau yn ne-orllewin Cymru. Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n bosibl dweud yn bendant pryd y gwneir y penderfyniad.

### Cynnydd yn Nhreth y Cyngor

**C22 Glyn Davies:** A yw Peter Law wedi amcangyfrif y cynnydd cyfartalog a ddisgwylir yn nhreth y cyngor ar gyfer 2000-01? (OAQ3479)

**Peter Law:** Petai cynghorau'n gwario 5.8 y cant yn fwy a phetai awdurdodau heddlu'n gwario 5 y cant yn fwy, £1.17 yr wythnos fyddai'r cynnydd cyfartalog ym mand D, heb gynnwys y dreth a hawlir gan gynghorau cymunedol a gostyngiadau dewisol ar y dreth an-nomestig. Bydd y cynnydd gwirioneddol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan yr awdurdodau unigol eu hunain.

### Rheoli Gwastraff (Effaith ar Iechyd)

**C23 Pauline Jarman:** Mae cynllun strategol Cymru yn cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd a'r amgylchedd. Pa fesurau a fydd yn cael eu rhoi ar waith i atal gweithdrefnau rheoli gwastraff gwael rhag cael effaith andwyol ar iechyd? (OAQ3461)

**Peter Law:** Drwy reoleiddio gweithgareddau rheoli gwastraff, rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd sicrhau nad ydynt yn niweidio iechyd y cyhoedd. Mae sawl astudiaeth ar y gweill ar hyn o bryd sydd yn ymchwilio i gysylltiadau honedig rhwng safleoedd claddu ysbwriel ac iechyd y bobl sydd yn byw gerllaw. Pan fydd canlyniadau'r rhain ar gael, byddaf yn ystyried a oes angen rhagor o weithgarwch arnynt.

### Materion Ariannol Cyngor Sir Dinbych

**C24 Janet Ryder:** Yng ngoleuni adroddiad diweddaraf y Comisiwn Archwilio i faterion ariannol Cyngor Sir Dinbych, pa gamau y mae Peter Law yn bwriadu eu cymryd i'w helpu? (OAQ3452)

**Peter Law:** Nid wyf yn ymwybodol o adroddiad diweddar gan y Comisiwn Archwilio ar faterion ariannol Cyngor Sir Ddinbych. Deallaf fod yr Archwiliwr Dosbarth wedi anfon llythyr rheoli i'r Cyngor ynghylch ei faterion ariannol, ond mae hwn yn fater cyfrinachol rhwng y ddau grŵp hynny'n unig. Mae'r Cyngor wedi derbyn fy nghynnig i'w cynorthwyo drwy hepgor gostyngiad o £2.5 miliwn yn y gymeradwyaeth credyd sylfaenol a oedd i fod i 'dalu'n ôl' gymeradwyaeth credyd ychwanegol a wnaethpwyd yn 1997. Bydd hyn o gymorth gydag unrhyw ad-dalu grant i'r Comisiwn Ewropeaidd y gallai'r Cyngor orfod ei wneud mewn perthynas â rhaglenni cyfalaf a etifeddwyd gan Gyngor Tref Rhuddlan. Os bydd angen i'r Cyngor godi treth y cyngor yn uwch na'r cyfartaledd y flwyddyn nesaf, yr wyf wedi nodi y byddwn yn barod i ystyried eu sefyllfa'n garedig.

### Gwella Ansawdd Aer

**C25 Janet Davies:** Pa gamau y mae Peter Law yn bwriadu eu cymryd i wella ansawdd aer yn y mannau sydd yn dioddef waethaf oherwydd llygredd yng Nghymru? (OAQ3455)

**Peter Law:** Mae'r manylion wedi eu cynnwys yn fy ateb i gwestiwn Jenny Randerson (OAQ3427) yn gynharach heddiw.

### Ansawdd Aer (Ardaloedd sydd yn Dioddef Waethaf yng Nghymru)

**C26 David Lloyd:** Beth yw'r bwriad tymor hir ar gyfer mynd i'r afael ag ansawdd aer yn yr ardaloedd sydd yn dioddef waethaf yng Nghymru? (OAQ3458)

**Peter Law:** Mae'r manylion wedi eu cynnwys yn fy ateb i gwestiwn Jenny Randerson (OAQ3427) yn gynharach heddiw.

### Cynnydd yn Lefelau'r Môr ac Afonydd

**C27 Alison Halford:** A allai Peter Law roi imi ei ragamcaniadau gweithio presennol o effaith debygol unrhyw gynnydd yn lefelau'r môr ac afonydd ar y glannau yng Nghymru ar gyfer y 50 mlynedd nesaf? (OAQ3471)

**Peter Law:** Mae llawer o ansicrwydd o hyd ynghylch graddfa effeithiau newid hinsawdd ar lefelau'r môr ac afonydd. Mae tybiaethau gweithio o 5mm y flwyddyn yn cael eu defnyddio ar gyfer amddiffynfeydd arfordirol a gynllunir yn y 50 mlynedd nesaf. Dim ond yn awr y mae'r rhagolygon ar gyfer y newid yn amlder llifogydd afonydd yn dod ar gael, ond maent yn awgrymu y gallent godi 2 neu 3 ffactor dros y 50 mlynedd nesaf. Dangosir effaith bosibl hynny ar y mapiau gorlifdiroedd mynegol a baratowyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, gyda chymorth ariannol y Cynulliad, ac a roddwyd i bob awdurdod lleol. Bydd yr effaith yn dibynnu ar barodrwydd yr amrywiol awdurdodau i ddelio â'r cynnydd hwn. Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo awdurdodau drwy ddogfennau fel y canllawiau ar dargedau lefel uchel ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd a'r arfordiroedd, ac mae hefyd, ynghyd ag eraill, yn paratoi canllawiau wedi'u diweddaru ar gynllunio rheolaeth ymylon traethau a fydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae cynlluniau rheoli ymylon traethau yn cael eu paratoi ar gyfer arfordir Cymru gyfan.

### Canllawiau Rhanbarthol at Ddibenion Cynllunio

**C28 Elin Jones:** A yw'r Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi canllawiau rhanbarthol at ddibenion cynllunio? (OAQ3465)

**Peter Law:** Mae'r Cynulliad yn bwriadu adolygu a diwygio amrywiaeth o ganllawiau cynllunio. Yn arbennig, mae gwaith ar y gweill i adolygu 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio' a 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Cynlluniau Datblygu Unedol'. Cynhelir yr adolygiadau hyn mewn ffordd agored a fydd yn cynnwys pawb. Sefydlwyd fforwm cynllunio i gyfrannu at adolygu 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio' a chynhelir seminar y mis hwn i drafod adolygu 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Cynlluniau Datblygu Unedol'.

Mewn adroddiad i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol ar 20 Hydref 1999, nodais y trefniadau a gynigwyd i ystyried materion cynllunio ar lefel ranbarthol yng Nghymru. Mae'r canllawiau cynllunio presennol yn hyrwyddo sefydlu grwpiau o awdurdodau cynllunio lleol i ystyried y materion cynllunio hynny sydd o bryder iddynt i gyd, ac i ddatblygu strategaethau y gellir eu hadlewyrchu drwy eu cynlluniau datblygu unedol. Yr wyf yn falch bod pedwar grŵp o'r fath yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, gan gynnwys ymgynghori â chyrff sydd â diddordeb yn y maes. Fel rhan o'r broses o adolygu 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Cynlluniau Datblygu Unedol', ystyrir a fyddai canllawiau pellach ar gyfer grwpiau gwirfoddol o awdurdodau cynllunio lleol yn ddefnyddiol.

### Strategaeth Gwastraff Cymru

**C29 Pauline Jarman:** Pa gynlluniau ymarferol y mae'r Cynulliad yn bwriadu eu dilyn os bydd lleihau gwastraff yn rhan ganolog o strategaeth gwastraff arfaethedig Cymru? (OAQ3462)

**Peter Law:** Datblygir cynigion i hyrwyddo lleihau gwastraff ymhellach yng ngoleuni canlyniadau'r astudiaeth gwmpasu ym maes rheoli gwastraff sydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Dylem gael y canlyniadau ym mis Mehefin. Fel rhan o'r broses hon, byddaf yn ystyried

a fyddai'n addas rhoi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch y pwerau sydd ar gael iddynt dan Ddeddf Lleihau Gwastraff 1998. Byddaf hefyd yn ystyried pa fesurau y dylid eu hanelu at gartrefi a busnesau.

## Rhwydwaith Ffyrdd Sir Benfro

**C30 Nicholas Bourne:** A wnaiff Peter Law ddatganiad ynghylch ansawdd y gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith ffyrdd yn Sir Benfro? (OAQ3434)

**Peter Law:** Asiantaeth Cefnffyrdd Gorllewin Cymru sydd yn rheoli'r cefnffyrdd yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae cyflwr presennol y cefnffyrdd yng ngorllewin Cymru yn cyd-fynd â meini prawf y Cynulliad er bod angen ailadeiladu rhai rhannau ohonynt sydd yn cael traffig trwm. Cyngor Sir Penfro sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd eraill Sir Benfro, er bod cysylltiad agos rhwng yr holl awdurdodau priffyrdd yng ngorllewin Cymru. Ysgrifennaf atoch yn fanwl ar y mater hwn.